# Cyngor Cymuned Llandderfel.

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Medi 6ed 2022 yn Neuadd Mynach Yn bresennol oedd Eifion Davies (is-gadeirydd), Rita Jones, Alwyn Jones, Eilir Rowlands, Bethan Thomas, Gwenda Morris a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Iolo V. Evans, Gwenda Evans a'r Cyng. Elwyn Edwards.

Gan fod Maldwyn Jones yn methu bod yn bresennol cytunodd Eifion Davies i gadeirio'r cyfarfod.

**i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Gorffennaf a chafwyd yn gywir.**

**ii) Datgan Buddiant.**
Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

**iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.**

a) Ymateb i'r materion o'r cyfarfod diwethaf.
i) Pont Fawr, Llandderfel – roedd cynlluniau mewn lle i glirio'r canghennau a oedd wedi casglu o dan y bont.
ii) B4401 ger Bryn Melyn, Llandderfel - roedd yr Arolygwr Priffyrdd wedi rhoi cyfarwyddiadau i'r gweithlu drwsio'r ffordd.
iii) Mesuriadau cyflymder ar yr A494, Bala i Ddwyryd - cafwyd cadarnhad fod Llywodraeth Cymru yn aros am fanylion y gwrthdrawiadau diweddaraf er mwyn asesu os oedd angen mesurau peirianneg i wella diogelwch y ffordd
iv) Canghennau coed yn pwyso ar y lein ffordd ger mynedfa Clwb Carafanau a Gwersylla, Cefnddwysarn - yn anffodus doedd Open Reach ddim yn derbyn cwynion yn uniongyrchol ac y byddai rhaid i un o'r trigolion lleol basio'r gwyn ymlaen trwy eu cyflenwr ffon e.e. BT.
v) Torri gwrych Tŷ Nant, Cefnddwysarn, gwter rhwng Bryn Ethol a Bryn Awelon angen ei lanhau ac arwydd Cefnddwysarn ochr Sarnau angen ei lanhau. Roedd y clerc wedi derbyn cadarnhad y byddai'r materion yma yn cael sylw ond nid oedd yr Asiantaeth Cefnffyrdd wedi gwneud y gwaith.
vi) Cwynion am lwybrau cyhoeddus ardal Cefnddwysarn - roedd y clerc wedi pasio'r cwynion diweddaraf i'r swyddog Cyngor Gwynedd.
vii) Arwyddion toiledau newydd dwyieithog ger Llyn Celyn - gofynnwyd i'r clerc ail gysylltu â'r Parc Cenedlaethol ynglŷn â'r cais yma.
viii) Llecyn o dir ar ochr y ffordd rhwng pentref Sarnau a Pencefn - cafwyd cadarnhad mae Cyngor Gwynedd oedd berchen y tir.

b) Mynwentydd.
Er i swyddog Cyngor Gwynedd addo gosod y polyn i'r arwydd newydd ger mynedfa mynwent Llandderfel nid oedd yn ei le. Roedd addewid i orffen peintio'r giatiau'r wythnos yma. Derbyniwyd cais i wella llwybrau troed mynwent Frongoch. Cytunwyd i wneud ymholiadau faint fyddai'r gost i ymestyn y llwybr troed tuag at y beddi newydd.

c) Fferm Wynt Gaerwen.
Cafwyd adroddiad gan y clerc o'r hyn a drafodwyd yn y cyfarfod gyda'r cwmni PR. Nodwyd fod bwriad cynnal digwyddiad yn Llandrillo i rannu gwybodaeth am y prosiect. Roedd y clerc wedi pwysleisio fod angen rhoi cyfle i drigolion Glanrafon cael trafod y bwriad o greu mynediad i'r safle o'r A494 ar ymyrraeth y byddai hyn yn creu.

ch) Gweithdai Ardal Ni 2035.
Cytunodd Rita Jones a Bethan Thomas fynychu'r cyfarfod ar ran y Cyngor.

d) Cynllun Hyfforddiant.
Cymeradwywyd y cynllun yr oedd y clerc wedi ei baratoi.



Arwyddwyd: …………………………………………… Dyddiad: …………………………………..

dd) Meinciau llwybr troed Llanfor i Bala.
Roedd y clerc wedi derbyn cadarnhad gan Gyngor Gwynedd a’r Asiantaeth Cefnffyrdd nad hwy oedd yn gyfrifol am y meinciau. Gan fod eu cyflwr mor sâl cytunwyd i’w clirio rhag ofn i rywun frifo.

**iv) Gohebiaeth.**

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Cyngor Gwynedd.
i) Swyddog Cefnogi Cymunedau newydd.
ii) Gwybodaeth am y gwasanaeth Tîm Tacluso Ardal Ni.
iii) Rhaglen waith yr adran priffyrdd a bwrdeistrefol.
iv) Cefnogi Prosiectau Ymarferol.

b) Llywodraeth Cymru.
i) Ymgynghoriad Treth Cyngor Tecach.
ii) Rhaglen cyfleusterau cymunedol – cynllun grant cyfalaf.
iii) Adran 6 y ddyletswydd bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau - cytunwyd i ddefnyddio’r wybodaeth wrth adolygu eu polisi yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

c) Amrywiol.
i) Dwr Cymru - diweddariad ar y gwaith hanfodol sydd angen ei gyflawni yng nghronfa ddŵr Llyn Celyn.
ii) Parc Cenedlaethol Eryri – cyfarfodydd blynyddol cynghorau cymuned a thref gyda’r Parc.
iii) Triathlon Y Bala 2022 - nodwyd fod problemau parcio gan nad rhai yn defnyddio’r meysydd parcio swyddogol.
iv) Cyfoeth Naturiol Cymru - diweddariad gwaith diogelwch ar gronfa ddŵr Llyn Tegid.
v) Daily Post – cais am newyddion lleol.
vi) Llythyr gan un o drigolion Llanfor ynglŷn â’r goryrru ar y A494 - roedd y clerc eisoes wedi cydnabod y neges ac wedi anfon ymateb Llywodraeth Cymru i gwynion diweddaraf y cyngor cymuned ynglŷn â'r damweiniau.

**v) Ceisiadau Cynllunio.**

a) Derbyniwyd y ceisiadau cynllunio canlynol, nid oedd y cynghorwyr yn ymwybodol o unrhyw wrthwynebiad lleol:-
i) C22/0714/44/LL – Cyfnewid adeilad unllawr allanol/ sied a ddinistriwyd gan dân, Gelli, Llandderfel.
ii) Ymgynghoriad Cyd-ymgeisio Llyn Celyn.
iii) C22/07748/04/DT – Estyniadau cefn ac ochr arfaethedig ac addasiadau cyffredinol, Dol Gu, Maerdy.

b) Cwyn gan un o drigolion pentref Frongoch ynglŷn â chais cynllunio cymydog**.**
Roedd y clerc wedi derbyn cwyn fod y Cyngor Cymuned heb ymgynghori a’r trigolion lleol ynglŷn â chais cynllunio a bod y sŵn o’r datblygiad yn effeithio arnynt. Roedd y clerc wedi gyrru ymateb cychwynnol yn egluro mae’r Parc Cenedlaethol oedd yn gyfrifol am brosesu’r cais a dim y Cyngor. Roedd y Parc yn gofyn am farn y Cyngor Cymuned ac roedd croeso i unrhyw un gysylltu â hwy gyda'u pryderon ond nid oedd yn ymarferol i’r Cyngor fynd o gwmpas y trigolion yn holi am eu barn unigol ac nid oeddynt erioed wedi gwneud hyn Roedd y clerc wedi pasio’r pryderon am ddefnydd yr adeilad newydd a’r sŵn adeiladu ymlaen i Adran Cynllunio’r Parc ac Adran Iechyd yr Amgylchedd Cyngor Gwynedd. Roedd y ddwy adran yma wedi cadarnhau eu bod wedi bod yn trafod y cwynion gyda’r achwynydd. Gofynnwyd i’r Clerc yrru llythyr swyddogol yn ymateb i’r pwyntiau a godwyd.

**vi) Materion Ariannol.**

a) Derbyniadau.
i) Ail-randal y Praesept £4,500,



Arwyddwyd: …………………………………………. Dyddiad: …………………………………..

ii) £500 grant Parc Cenedlaethol ar gyfer y lloches bws newydd yn Frongoch.

b) Taliadau
i) Cytunwyd i dalu Cyngor Gwynedd (archwiliad mewnol 2021/22).
ii) Adroddodd y clerc ei bod wedi talu Pethe Penllyn (hysbyseb archwilio mynwentydd) a Neuadd Bro Derfel (cyfraniad i brosiect ail agor y toiledau). Roedd y rhain wedi cael eu cymeradwy i'w talu eisoes.

c) Archwilio Cymru.
Ymgynghoriad ar raddfeydd ffioedd 2023-24.

ch) Ceisiadau Ariannol.
Derbyniwyd ceisiadau gan Cerebral Palsy Cymru a Gofal Canser Tenovus. Cytunwyd i'w trafod gyda gweddill y ceisiadau ariannol ym mis Mawrth.

**vii) Materion lleol.**
a) Gofynnwyd i'r clerc basio'r cwynion canlynol ymlaen i'r adrannau perthnasol:-
i) Llanast wedi cael ei adael ochr Llyn Celyn.
ii) Ffens o gwmpas y garreg goffa ger Llyn Celyn wedi malu.
iii) Ffordd fach ger Ysgol Bro Tryweryn dal heb gael ei thrwsio.

# Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Hydref 4ydd yn am 7.30 y.h. yn Neuadd Mynach.



Arwyddwyd: ……………………………………………. Dyddiad: ……………………………………..